# Cymeriadu

## Megan Angharad Hunter




**Adnabod cymeriad**
Dychmyga dy fod di’n cerdded i mewn i dafarn.

Unrhyw dafarn; y dafarn ar ben y stryd, tafarn mewn Gorsaf Ofod Ryngwladol, tafarn yn y twll dan y grisiau, tafarn mewn ogof, tafarn mewn pentref bach ar ynys anghysbell sy’n berwi dan storm . . . unrhyw dafarn o dy ddewis di.

Wrth iti gerdded i mewn i’r dafarn, mi wyt ti’n sylweddoli ei bod bron yn hollol wag yno, er ei bod yn cymryd ychydig eiliadau iti allu sylweddoli hynny gan mai dim ond llond llaw o lampau sy’n goleuo’r lle. Mi weli di gasgliad o gadeiriau amrywiol yn amgylchynnu byrddau pren; cadeiriau breichiau lledr, rhai melfedaidd a stolion pren sigledig yr olwg sy’n dy atgoffa o ebolion yn trio sefyll am y tro cyntaf. Ti’n edrych am i lawr ac yn sylwi ar ddegau o staeniau crwn yn marcio wyneb bob bwrdd. Ti’n cyffwrdd un o’r staeniau ar y bwrdd sydd agosaf at y drws efo blaenau dy fysedd; mae’n ludiog. Codi dy ben, ac mi weli di ddynes ganol oed yn sefyll y tu ôl i’r bar. Mae hi’n sychu gwydrau o feintiau a lliwiau gwahanol efo cadach sy’n edrych fel petai heb weld peiriant golchi erioed. Mae arogl mwg yn drwch yn dy ffroenau er nad oes yr un lle tân i’w weld yn unman. Dydi’r ddynes y tu ôl i’r bar ddim yn edrych i fyny arnat ti wrth iti gamu dros y trothwy, er bod cloch fach uwch ben y drws yn canu i dy gyfarch di; dydi hi ddim yn dy gydnabod di o gwbl.

Ond mae rhywun arall *yn* dy gydnabod di; yr unig berson arall sydd yma. Person sy’n eistedd mewn cadair freichiau ledraidd yng nghornel dywyllaf y dafarn: dy gymeriad di. Ti’n sylwi ar y cymeriad – na, mi wyt ti’n syllu, wrth gwrs dy fod di’n syllu! Sawl awdur sy’n cael cyfle i gwrdd â’u cymeriadau fel hyn?! Felly, ti’n parhau i sefyll wrth y drws am ychydig funudau, y syndod yn dy sodro i’r llechi o dan dy draed. Ond o’r fan hon, mi fedri di astudio edrychiad y cymeriad, felly mi wyt ti’n dechrau ystyried y cwestiynau hyn:

- Beth mae’r cymeriad yn ei yfed? Ydyn nhw’n cymryd llymeidiau bychain neu’n llowcio’r ddiod?
- Beth maen nhw’n ei wisgo? Sut ddillad, esgidiau, a sanau sydd ganddyn nhw?
- Sut siâp sydd ar eu gwallt nhw?
- Disgrifia’u hosgo nhw. Ydyn nhw’n cwmanu tua’r ddiod fel petai’r cymeriad yn trio’i gwarchod, neu’n eistedd efo’u cefn yn syth, yn perchnogi’u cadair freichiau?
- Sut y maen nhw’n ymateb i dy bresenoldeb di? Ydyn nhw’n gwenu? Yn gwgu? Yn gwbl ddidaro? Yn taflu’r ddiod tuag atat ti?

Ti'n igam-ogamu rhwng y cadeiriau a'r byrddau tuag at dy gymeriad, ac yn llusgo cadair freichiau arall tuag atyn nhw er mwyn eistedd gyferbyn. Mi fedri di astudio manylion eu hedrychiad nhw rŵan:

- Sut siâp sydd ar eu hwyneb nhw, eu haeliau nhw?
- Beth am liw eu llygaid nhw? Ydyn nhw'n edrych yn ddwfn i mewn dy rai di neu ydi eu golygon nhw'n hedfan o amgylch y dafarn?
- Oes unrhyw beth ar eu hwyneb nhw sy'n sefyll allan, neu'n anghyffredin?
- Ydi'u hewinedd nhw'n lân ac yn daclus?

Wedyn, mi wyt ti'n dechrau eu holi nhw:

- Beth ydi dy enw di?
- O le wyt ti'n dod? Lle wyt ti eisiau mynd?
- Beth wyt ti eisiau? Beth sydd ei angen arnat?
- Beth sy'n dy wneud di'n hapus? Beth sy'n dy wylltio di?
- Beth ydi dy wendid mwyaf, yn dy farn di? Beth ydi dy gryfderau?
- Beth ydi dy hoff ffilm, dy hoff lyfr a dy hoff raglen deledu?
- Beth ydi dy gyfrinach di?
- Wyt ti'n colli dy dymer yn hawdd?
- Beth sy'n rhoi'r pleser mwyaf iti?
- Beth sy'n gwneud iti chwerthin?
- Lle wyt ti'n teimlo'n saff? Lle sy'n gwneud iti deimlo'n anghyfforddus?
- Beth sy'n gwneud iti deimlo'n rhydd? Beth ydi rhyddid, yn dy farn di?
- Beth ydi dy obeithion di? Beth sy'n codi ofn arnat ti?
- Pa fath o berson wyt ti eisiau bod?
- Beth ydi dy atgof cyntaf?
- Beth ydi dy drysor di?
- Pwy ydi dy deulu di? Sut berthynas sydd gen ti efo dy deulu?
- Pwy ydi dy ffrind gorau? Sut y bydden nhw'n dy ddisgrifio di?
- Beth ydi dy agwedd tuag at fywyd?
- Pwy wyt ti eisiau bod ar ddiwedd y stori?

Wrth wrando ar yr atebion, ystyria:

- Sut lais sydd gan y cymeriad? Ydi'r llais yn gweddu'u hedrychiad?

Rŵan, dychmyga fod y ddynes y tu ôl i'r bar yn casáu'r cymeriad.

- Pam ei bod hi'n eu casáu nhw?
- Pam y byddai unrhyw un yn casáu dy gymeriad?
- Pwy sy'n caru'r cymeriad? Pam?

Mae croeso mawr i ti feddwl am gwestiynau eraill a fydd o gymorth iti ddod i adnabod dy gymeriad yn well, ac a fydd yn gwneud iddyn nhw deimlo'n fwy byw.

**Cymeriad a phlot**

Mae gan bob awdur farn wahanol o ran plotio a chymeriadu a'r dulliau o sgwennu sy'n gweithio orau iddyn nhw, ac mae'n bwysig dy fod di'n archwilio'r dulliau gwahanol hyn er mwyn darganfod y dull sy'n fwy addas i ti. Un o'r dulliau hyn – a'r dull dwi'n tueddu i'w ddefnyddio – ydi gadael i'r cymeriadau dy dywys ar hyd trywydd y stori. Dim ond wedi i fy mhrif gymeriadau deimlo mor fyw â'r byd o fy nghwmpas rydw i'n dechrau sgwennu, am fy mod i'n gwybod y bydd cymeriadau byw yn sgwennu'r stori ar fy nghyfer, bron. Mae plotio'n gwbl ddiangen os ydi fy nghymeriadau'n teimlo fel pobl go iawn, achos mi fyddan nhw'n rheoli'r plot, bron fel pe baen nhw'n bodoli y tu hwnt i'm rheolaeth i! Wedi imi ymgolli ym mywydau'r cymeriadau, mae'n amhosib gwybod beth yn union y byddan nhw'n ei wneud, neu'n ei ddweud, felly maen nhw'n fy synnu i'n aml. Er enghraifft, cyn sgwennu fy nofel gyntaf, *tu ôl i'r awyr* (2020), roeddwn i'n gwybod yn union beth fyddai'n digwydd yng ngolygfeydd cyntaf a golygfa olaf y nofel, ond roedd y rhan fwyaf o'r stori yn annelwig nes i'r cymeriadau fy arwain at ddigwyddiadau'r nofel efo'u penderfyniadau a datblygiadau eu perthnasau. Felly, pwy a ŵyr i ba gyfeiriad y bydd dy gymeriad di'n dy arwain! Gad i dy gymeriad dy dywys i'r llefydd mwyaf rhyfeddol ac annisgwyl; gad iddyn nhw wneud i dy galon di rasio a chynnau'r emosiynau mwyaf dwys ynot ti. Heria'r cymeriad yn emosiynol ac/neu yn gorfforol; dwi wedi sylweddoli fod pentyrru rhwystrau am ben fy nghymeriadau a chofnodi'u hymatebion yn gwneud iddyn nhw deimlo'n fwy byw.

Hefyd, os wyt ti wedi llwyddo i ateb y cwestiynau sydd wedi'u gosod mewn teip coch uchod, mi fyddi di'n gwybod digon am dy gymeriad i ddechrau sgwennu'r stori. Mae'r atebion i'r cwestiynau coch yn sbardunau storïol posib a all fynd â dy gymeriad ar daith. Er enghraifft, yn fy nofel gyntaf i blant, *Astronot yn yr Atig* (2023), mae Rosie wrth ei bodd efo'r gofod ac eisiau bod yn astronot. Felly, pan mae hi'n dod o hyd i astronot o'r dyfodol ar ei ffordd yn ôl o'r ysgol, dydi hi ddim yn oedi cyn bachu ar y cyfle i fynd ar anturiaeth efo'r astronot. Mae Rosie hefyd eisiau ffrindiau, ac mae'r 'eisiau' hwnnw'n sbarduno'r is-stori, sef y cyfeillgarwch sy'n datblygu rhwng Rosie a'i ffrind newydd, Mared. Yn *tu ôl i'r awyr*, sef nofel am ddau berson ifanc yn y Chweched Dosbarth sy'n dioddef problemau iechyd meddwl, mae gan Anest, un o'r prif gymeriadau, gyfrinach, sef ei brwydr gydag iselder. Dim ond Deian, y prif gymeriad arall, sy'n gwybod ei chyfrinach, a gan ei fod yntau yn dioddef problemau iechyd meddwl, mae'r gyfrinach hon yn sbarduno cyfeillgarwch dwfn rhwng y ddau sy'n symud y stori yn ei blaen.

**Byw â chymeriad**

Ond er mwyn i'r cymeriad deimlo fel person go iawn, dwi'n gwneud mwy nag ateb cwestiynau am y cymeriad yn unig; mae'n rhaid i mi allu byw yn eu meddwl nhw. Felly, caria dy gymeriad efo ti i bob man: i ddarlithoedd, i'r sinema, i'r parc, i'r clwb. Sut maen nhw'n ymateb i'r amgylchiadau gwahanol hynny? Sut siâp sydd ar eu meddyliau nhw? Ydyn nhw'n feddyliau trefnus a rhesymegol, neu'n lliwgar ac yn flêr? Gad i dy gymeriad dy gadw di'n

effro, gad iddyn nhw lenwi pob cornel o dy gorff, am ychydig, a gad iddyn nhw dy synnu di wrth iti sgwennu.

**Perthnasau**

Mae creu perthnasau rhwng dy brif gymeriad a'r cymeriadau eraill yn y stori hefyd yn gallu gwneud iddyn nhw deimlo'n fwy byw. Dwi'n meddwl fod cael rhywfaint o gyferbyniad rhwng y cymeriadau o gymorth yma. Er enghraifft, yn y nofel *tu ôl i'r awyr*, mae'r ddau brif gymeriad, Anest a Deian, yn wahanol iawn i'w gilydd o ran personoliaeth: mae Anest yn fyrbwyll, yn wyllt ac yn siaradus ond mae Deian yn dawel ac yn ofnadwy o swil. Er hynny, mae cyfeillgarwch arbennig yn ffurfio rhwng y ddau gan eu bod nhw'n wynebu heriau tebyg fel dau berson ifanc sy'n dioddef problemau iechyd meddwl. Felly, mae'n rhaid i o leiaf un peth glymu'r cymeriadau ynghyd, ond gall y cymeriadau cyferbyniol hyn ychwanegu tensiynau diddorol i'r stori.

**Meddwl am lais**

Os wyt ti'n sgwennu yn y person cyntaf, mae'n angenrheidiol dy fod yn dod o hyd i lais y cymeriad; i sicrhau bod llais y cymeriad yn wahanol i dy un di, meddylia am yr hyn sy'n dy wneud di'n wahanol i'r cymeriad. Efallai y bydd o gymorth iti ateb rhai o'r cwestiynau uchod dy hun, a'u cymharu ag atebion dy gymeriad. Ond hyd yn oed os wyt ti am sgwennu yn y trydydd person, mae'n bwysig dy fod yn dod o hyd i lais y cymeriad er mwyn sicrhau eu bod yn teimlo mor fyw â phosib i'r darllenydd, a dy fod yn gyfarwydd efo'u llais pan fyddi di'n sgwennu deialog. Er enghraifft, cyn sgwennu o safbwynt Lowri yn y trydydd person yn *tu ôl i'r awyr*, mi wnes i sgwennu ambell dudalen yn y person cyntaf er mwyn sicrhau fy mod i'n gyfarwydd efo'i llais a'r ffordd yr oedd hi'n prosesu pethau. Dwi hefyd yn tueddu i greu *playlists* ar gyfer pob cymeriad er mwyn iddyn nhw deimlo yn fwy byw; mae cerddoriaeth yn bodoli go iawn, yn wahanol i dy gymeriad, felly bydd creu *playlist* ar eu cyfer yn diriaethu rhywfaint arnyn nhw. Fel arfer, mae'r *playlists* hyn yn llawn caneuon sy'n gweddu i bersonoliaethau'r cymeriadau neu'n ganeuon y bydden nhw'n eu mwynhau.

Felly, ymgolla ym meddyliau dy gymeriadau a mwynha'r ansicrwydd – un o'r pethau dwi'n eu mwynhau fwyaf am sgwennu ydi'r ffaith nad ydw i byth yn hollol sicr beth fydd y cymeriadau'n penderfynu'i wneud ym mhob golygfa, a sut y byddan nhw'n ymateb i unrhyw beth, felly mwynha hynny! Mwynha'r rhyddid o gael dy dywys drwy'r stori gan dy gymeriad, a gwylia'r stori'n llifo'n naturiol wrth iddyn nhw ddatblygu ac esblygu o dy flaen.

O Ddyffryn Nantlle yn wreiddiol, mae **Megan Angharad Hunter** yn awdur cyfrolau i oedolion, oedolion ifanc a phlant. Enillodd ei nofel gyntaf, *tu ôl i'r awyr* (2020), brif wobr Llyfr y Flwyddyn yn 2021, a hi, gyda Maisie Awen, oedd awdur y gyfrol *Cat* yn y gyfres lwyddiannus, Y Pump (2021). Enillodd ei chyfrol *Astronot yn yr Atig* (2023) Wobr Tir na n-Og (categori uwchradd) yn 2024.

**Cyfeiriadau**

Hunter, Megan Angharad. 2020. *tu ôl i'r awyr*. Talybont: Y Lolfa.
Hunter, Megan Angharad. 2023. *Astronot yn yr Atig*. Talybont: Y Lolfa.

*Cyhoeddiad Mynediad Agored: CC BY-SA 4.0*

*Mae'r testun hwn wedi'i ryddhau dan y drwydded* Creative Commons *BY-SA 4.0, sy'n eich caniatáu i'w ail-ddefnyddio a'i newid mewn unrhyw ffordd os ydych yn rhoi cydnabyddiaeth ar ffurf dolen i'r dudalen hon, ac yn trwyddedu eich fersiwn ddeilliadol yn yr un modd. Gweler testun y drwydded am ragor o fanylion.*